YSGOL BRYNREFAIL

CYMDEITHAS RHEILFFORDD ERYRI

A fuoch erioed ar wibdaith ar reilffordd Eryri ? Wel os na fuoch y mae siawns i chi deithio 40 milltir ar y cledrau cul drwy harddwch ganol Eryri. Mae'r oll yn dibynnu ar wirfoddolwyr fel Gerallt Wyn Jones sy'n gweithio'n ddi-dâl i gynnal a chadw'r cledrau, atgyweirio gorsafoedd neu amrywiaeth o waith arall.

Mae Gerallt, sydd yn dod o Waunfawr wedi bod yn gweithio'n wirfoddol ar y rheilffordd am y chwe mis diwethaf ac yn ei eiriau ei hun :

" Roedd yn rhaid aros hyd nes fy mod yn un ar bymtheg oed cyn dechrau gweithio ond dwi nawr yn gwneud nifer o bethau gwahanol ac yn mwynhau'r cwbl.

Unwaith i mi adael Ysgol rwyf am ddechrau gyrfa ar y rheilffordd ac yn gobeithio yn y dyfodol caf hyfforddi i fod yn yrrwr trenau."

Wel Gerallt, mae disgyblion blwyddyn 8, fu ar y trên mis Gorffennaf diwethaf, yn ddiolchgar iawn am bobl fel ti yn treulio amser i gadw'r rheilffordd yn mynd.